**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 GORFFENNAF 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'r Rheolwr Gyfarwyddwr |
| **Pwnc:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cafodd Cofrestr Risg GwE ei hailddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac yn ystod ei datblygiad fe'i trafodwyd gan y Cyd-bwyllgor.

3.2 Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

| Matrics Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** |
| | | **Effaith** | | | |

3.3 Ar hyn o bryd mae 33 risg wedi eu hadnabod, 5 ohonynt wedi eu barnu'n risg ganolig / uchel, gydag un risg yn risg uchel.

3.4 Wrth i ni ddatblygu model newydd o gynllunio busnes, bydd rheoli risg yn rhan annatod ar bob lefel.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.

4.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor benderfynu a oes unrhyw risgiau yr hoffent eu dwyn i sylw eu Cabinet ayyb.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau o ran Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Datblygwyd templed y gofrestr mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

8.2 Mae’r Bwrdd Ymgynghorol a’r Bwrdd Rheoli wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio’r risgiau fel bo’n briodol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n croesawu cyflwyno'r adroddiad yma i'r Cyd Bwyllgor fel cam cadarnhaol yn llywodraethu GwE. Er fod yr asesiad wedi ei baratoi drwy law y Byrddau Ymgynghorol a Rheoli mae'n bwysig wrth ddatblygu'r drefn fod sylw priodol yn cael ei roi i gynnwys mewnbwn ehangach megis gan y Swyddogion Statudol.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Disgwyliaf, wrth gwrs, bydd cynnwys y gofrestr risg yn cael ei gadw’n “fyw”, a bydd fersiwn wedi’i adolygu gerbron Bwrdd Rheoli GwE neu Bwrdd Ymgynghorol GwE yn rheolaidd, a gerbron y Cydbwyllgor yn flynyddol.

Nodaf fod y Gofrestr Risg yn tynnu sylw at 3 mater ariannol. Mae risg 1 yn ymwneud â'r targed arbedion yng nghyllideb 2016/17, fel y'i cymeradwywyd gan y Cydbwyllgor ar 24 Chwefror 2016, a byddwn yn costio’r cynlluniau arbedion pan fydd rheiny ar gael. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth i Reolwr-Gyfarwyddwr GwE, fel bo angen, ynghylch Risgiau 2 a 3 sy'n ymwneud â chyllid grant Llywodraeth Cymru.